Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyhoeddiad a lansiad Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid / Llywodraeth Cymru ar y cyd** |
| **DYDDIAD** | **10 Gorffennaf 2014** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths,**<br>**Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth** |

Yn 2011, cytunodd Llywodraeth Cymru i ystyried beth arall y gellid ei wneud i gryfhau'r polisïau y mae'n gyfrifol amdanynt, er mwyn sicrhau mwy o atebolrwydd yr holl bartneriaid dros blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn, neu sydd eisoes yn y system cyfiawnder ieuenctid . Amlinellwyd hyn yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Mae ymgynghoriad Papur Gwyrdd ar gynigion i wella gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael mynd i mewn, neu sydd eisoes yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi cael ei wneud yn yr hydref 2012. Mae creu strategaeth ar y cyd Cyfiawnder Ieuenctid newydd dros Gymru, sy'n cael ei gyhoeddi heddiw, yn un o ganlyniadau allweddol yr ymgynghoriad Papur Gwyrdd.

Mae'r strategaeth ar y cyd yn dwyn ynghyd gweledigaeth ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc o Gymru sydd mewn perygl o fynd i mewn, neu sydd eisoes yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae'n darparu Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gyda fframwaith cydlynol y gall trwy atal troseddu ac ail-droseddu gan blant a phobl ifanc yn cael eu cyflawni. Mae'n adeiladu ar y dull a chyflawniadau a ddarperir o dan y Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan 2004 (STICG), a'i Gynllun Cyflenwi dilynol 2009.

Ffocws y Strategaeth yw ar gyflwyno gwell cefnogaeth a gweithio mewn Partneriaeth ar gyfer pobl ifanc a phlant o fewn y system cyfiawnder ieuenctid, drwy atal newydd-ddyfodiaid a sicrhau ailintegreiddio effeithiol ac adsefydlu pobl ifanc o Gymru yn dilyn dedfryd gymunedol neu ddedfryd o garchar.

Caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith drwy ddatblygu cynllun cyflenwi. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro gweithrediad y Strategaeth, gan

sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn gallu ymateb i anghenion newidiol arferion cyfiawnder ieuenctid a sut y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u darparu.

http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/children-and-young-people-first/?lang=cy